

~ Y Feidr ~

Cylchgrawn Eglwys Annibynnol Capel Mair, Aberteifi
Cyfrol vii, Rhifyn 28 Gwanwyn 2012

Golygydd : Wynford Jones



Calendr Oedfaon y Sul : Mai – Hydref 2012

10.00 o'r gloch

6.00 o'r gloch

Mai:

- | | |
|---|--------------------------------------|
| 6—Mr John Bevan (c) | |
| 13—Rihysal Fawr y Gymanfa Ganu | Rihysal Fawr y Gymanfa Ganu |
| 20—Y Gymanfa Ganu am 10.00, 2.00 a 6.15 o'r gloch | |
| 27— | Y Parchg D. Carl Williams, Llandybie |

Mehefin:

- | | |
|---|----------------------|
| 3— | Mr Ken Thomas, Y Mot |
| 10—Y Parchg Huw George, Llandysilio (<i>Bydd aelodau Capel Blaenconin yn ymuno â chynulleidfa Capel Mair</i>) | |
| 17—Y Parchg Meurig Thomas, Blaenffos | |
| 24—Y Parchg Emyr Lyn Evans, Caerfyrddin | |

Gorffennaf:

- | | |
|---|----------------------------|
| 1—Oedfa Gŵyl Fawr Aberteifi yn y Ganolfan Hamdden | |
| 8—Y Parchg Desmond Davies, Caerfyrddin (c) | |
| 15— | Mr Arwyn Pierce, Llandysul |
| 22—I'w Ienwi | |
| 29—Y Parchg H. Gwynfi Jenkins, Aberteifi | |

Awst:

- | | |
|--|------------------------------------|
| 5— | Y Parchg Carys Ann, Glynarthen (c) |
| 12—Oedfa Undebol yng Nghapel Mair – Y Parchg John Gwilym Jones | |
| 19—Oedfa Undebol yng Nghapel Tabernacl | |
| 26—Oedfa Undebol yng Nghapel Bethania | |

Medi:

- | | |
|----------------------------------|-----------------|
| 2— | Y Gweinidog (c) |
| 9—Y Gweinidog | |
| 16—Cyrddau Blynnyddol Bethania | |
| 23— | Y Gweinidog |
| 30—Mr T. Melfydd George, Penparc | |

Hydref:

- | | |
|--|-------------|
| 7—Y Gweinidog (c) | |
| 14—Cyrddau Pregethu Tabernacl | |
| 16—Cwrdd Diolchgarwch – Y Parchg John Treharne, Llwynhendy | |
| 21— | Y Gweinidog |
| 28—Y Gweinidog | |

Nodiadau Eglwysig

Marwolaeth

Mrs Nan Thomas, Cartref Brondesbury

Capt Ellis Towyn Rees, Bryndelyn

Pen-blwydd:

Mrs Glenys Davies yn 90 oed

Mr Emyr Jones, Yr Oernant, yn 80 oed

Mr Lyn Phillips, Fferm Penwern, yn 70 oed

Dathlu Priodas:

Priodas Aur – Dafydd a Helen Wyn Jones

Diacon Newydd:

Dyfed Elis-Gruffydd

Derbyn yn Aelodau Newydd:

Mr a Mrs Andrew Rockley, Brecon Terrace

Llongyfarchiadau:

Ceri Wyn Jones ar ei benodi'n Feuryn ar raglen Radio Cymru "Talwrn y Beirdd".

Richard Jones, Yr Oernant, ar ei gamp yn ysgrifennu drama, "Pwy yw Paul?" i Gwmni Drama Llandudoch sydd nawr ar daith o amgylch y fro.

Plant y Festri:

Aeth pedwar aelod o'r Egin Glas i gystadlu mewn cwis ym Mwlchgyroes, ger Ffostrasol, yn ddiweddar. Y maes llafur oedd: "Y Cread" a "Y Merched doeth a ffôl". Roedd wyth tîm yn cystadlu a daeth tîm Capel Mair yn drydydd. Llongyfarchiadau mawr i Anwen a Siôn Rockley ac Efa a Gad Bowen. Diolch yn fawr i athrawon y festri am hyfforddi'r plant ac i'w rhieni am bob cefnogaeth.



Noder

Cynhelir oedfaon hwyr y Sul am 6.00 o'r gloch hyd ddiwedd mis Hydref.

Elusennau

Yn dilyn yr awgrymiadau a dderbyniwyd yn y blwch elusennau a leolwyd yng nghyntedd y capel am gyfnod, cytunwyd dosbarthu £260 yr un i'r elusennau canlynol: Llyfrau Llafar Cymru, Mudiad Alcohol a Chyffuriau Cymru, Tŷ Hafan, a Chlwb Gateway Aberteifi a'r Cylch.

Cynllun Cludo Addolwyr i'r Oedfaon

Pe dymunech gael eich cludo i'r oedfaon yng Nghapel Mair ar y Sul ac i'r cyfarfodydd yn ystod yr wythnos, mae croeso i chi gysylltu â'r gwirfoddolwyr a enwir isod:

Myra Evans	810 133
Iris Phillips.	613 934
Ann Vittle	613 064
Gareth Evans	615 525
Delwyn Griffiths	612 946
Gareth Jerman.	612 361

Owain, tyrd yn ôl

Ers y degfed o Fawrth, mae ein meddyliau a'n teimladau dwysaf yn treiddio tuag at Brynawelon lle mae'r gweinidog a'i briod yn disgwyl ymddangosiad Owain o ddydd i ddydd. Afraid dweud bod holl aelodau a ffrindiau'r eglwys yma yng Nghapel Mair yn rhannu'r gofid a'r gwewyr meddwl. Nid oes diwrnod yn gwawrio nad ydym un ac oll yn gweddïo am newyddion i ddileu'r prudd-der.

'Camp a chelfyddyd y cenhedloedd cynnar' 1



Pen pedwar ceffyl ynghyd ag un rhinosoros


Fe wŷr pob un sydd wedi ymweld â Thŷ'r Ardd, Llechryd, cartref Siân a minnau, am ein hoffter o baentiadau a cherfluniau o waith artistiaid cyfoes o Gymry. Dawn hynod brin yw honno a fedd arlunwyr a cherflunwyr ac nid dawn mohoni sy'n gyfyngedig i'r cyfnod hanesyddol. Y mae hefyd yn nodwedd o'r cyfnodau cynhanesyddol, ac i werthfawrogi enghreifftiau gwiw o ddoniau pensaernïol a chelfyddydol ein cyndeidiau does dim rhaid camu ymhellach na sir Benfro, gan mai

I'r cynfyd y camwn wrth groesi'r ffin i Sir Benfro,

Sir carreg ogam a chromlech a charn a chroes;

Ac ar ffermydd yn gyffredin, codwyd, wrth aredig, o'r pridd hen feini

A'u gosod i sefyll ar gaeau yn dyst i'r gyntefig oes.²



Ôl llaw plentyn

A diau fod nifer o ddarllenwyr *Y Feidr* yn gyfarwydd â rhai o ogoniannau'r cynfyd, megis: cromlech Pentre Ifan; y cylch cerrig a saif ar weundir y Gors Fawr, Mynachlog-ddu, nid nepell o garreg goffa Waldo; y garreg ogam yn Eglwys St Thomas, Llandudoch; a Chroes Brynach – y groes Geltaidd ysblennydd y cân y gog

ar ei phen, yn ôl y chwedl, ar y seithfed o Ebrill, dygwyl y sant – ym mynwent Eglwys Brynach Sant, Nanhyfer.

Eto i gyd, er gwyched yr henebion, mae'r mwyafrif o ddigon ohonynt yn amddifad o wir waith celf. Y mae cromlech Pentre Ifan, heb os, yn un o orchestion amlycaf y cymunedau Neolithig (Oes Newydd y Cerrig) yng Nghymru, ond does dim olion unrhyw gerflunwaith ar arwynebau meini'r siambr gladdu. Mor wahanol yw beddrodau Barclodiad y Gawres a Bryn-celliddu, Ynys Môn, oherwydd ar arwynebau rhai o'r meini niferus yng nghrombil y naill a'r llall ceir patrymau cerfiedig haniaethol – cylchoedd, troelliadau a chyfresi o linellau igamogam – sydd gyda'r dystiolaeth gynharaf yng Nghymru o ffrwyth ysgogiad artistig. A'r rhyfeddod yw bod y naill siambr gladdu a'r llall, a godwyd tua 5,000 o flynyddoedd yn ôl, yn hŷn na Phyrmaid Mawreddog Giza, Yr Aifft, a godwyd yn ôl pob tebyg tua 4,500 o flynyddoedd yn ôl.

Er mor hynafol yw meini cerfiedig Môn, maent yn ddiweddar o'u cymharu ag oedran y cerflun hynaf y gwyddom amdano yng ngwledydd Prydain. Darn o asgrwn yw hwnnw ac arno ysgythriad o ben ceffyl, a luniwyd gan artist anhysbys tua 12,000 o flynyddoedd yn ôl. Cafwyd hyd i'r gwrthrych, sy'n dyddio o'r cyfnod Palaeolithig (Hen Oes y Cerrig), yn Ogorf Robin Hood, Swydd Derby. Yma yng Nghymru mae hen ddigon o dystiolaeth i brofi bod trigolion y cyfnod Palaeolithig wedi llochesu mewn ogofâu, os nad byw ynddynt ar adegau, ond does dim enghreifftiau diamheuol o gerfluniau na phaentiadau ar eu muriau. Ond nid felly y mae hi ar gyfandir Ewrop ac yn enwedig yn Ffrainc.

Gyda'r enwocaf o'r ogofâu addurnedig yw Lascaux yn ne-orllewin Ffrainc, a ddarganfuwyd ar hap gan bedwar bachgen, oll yn eu harddegau, ym mis Medi 1940. Yn 1948, agorwyd yr ogof i'r cyhoedd fel y gallai'r fil a mwy o ymwelwyr dyddiol werthfawrogi a rhyfeddu at y murluniau a'r ysgythriadau a grëwyd gan artist, neu artistiaid anhysbys, tua 17,300 o flynyddoedd yn ôl. Fodd bynnag, erbyn 1955 daeth yn amlwg fod anadliadau'r llu ymwelwyr yn cael effaith andwyol ar y 2,000 o ddelweddau o anifeiliaid, yn bennaf, a rannai'r un cynefin â chymunedau Palaeolithig yr ardal. Oherwydd y difrod, caewyd yr ogof ac yna yn 1979 fe'i dynodwyd yn un o Safleoedd Treftadaeth y Byd. Erbyn heddiw, caiff y miloedd sy'n ymweld â'r safle eu hebrwng i mewn i ogof ffug wedi'i haddurno ar batrwm y siambrau tanddaearol.

Fodd bynnag, er hyned y paentiadau yn ogof Lascaux, diweddar yw'r rheiny o'u cymharu ag oedran campweithau hynaf y gelfyddyd cynhanesyddol. Daeth y celfweithiau hynny i'r fei ar 18 Rhagfyr 1994 pan ddaeth tri ogofawr, a oedd yn archwilio rhai o ogofâu niferus yr Ardèche, yn ne-ddwyrain Ffrainc, o hyd i fynedfa guddiedig Grotte Chauvet fry uwchlaw llawr ceunant dwfn afon Ardèche. Ar ôl iddynt glirio'r rwbwl, a dagai fynedfa'r ogof, cawsant eu hunain yn sefyll mewn ogof fawr ac yna o'u blaenau, ar furiau'r siambr danddaearol, fe ddaeth enghreifftiau lu o baentiadau gorwych o anifeiliaid i'r amlwg yng ngolau gwan eu lampau. Ar furiau'r rhwydwaith o dramwyfeydd a cheudyllau, cafwyd hyd i oddeutu 300 o furluniau yn darlunio rhinoserosod, llewod, mamothiaid, ceffylau, ych gwyllt, eirth a cheirw,

yn bennaf, a baentiwyd gan arlunwyr meistrolgar gyda chymorth ocr coch a siarcol, a hynny yng ngolau gwan fflaglau gwenfflam, myglyd. At hynny, ceir ar y muriau rai delweddau prin o ddwylo plant ac, ar lawr yr ogof, olion traed pobl Hen Oes y Cerrig. Ymwelwyr oeddynt gan nad oes unrhyw beth yn yr ogof i brofi bod y lle wedi bod yn gartref parhaol i breswylwyr y gyntefig oes.

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd Ogof Chauvet a hynny am nifer o resymau. Mae'r technegau a ddefnyddid gan yr artistiaid yn rhyfeddol, yn enwedig eu defnydd creadigol o bersbectif ac arlliw, er mwyn bywiocáu'r creaduriaid a bortreadwyd mor gelfydd a byw ganddynt. Yn wir, pa mor gyntefig bynnag oedd yr oes yr oedd yr arlunwyr yn perthyn iddi, ansoddair cwbl amhriodol yw 'cyntefig' i ddisgrifio eu campweithau cywrain sydd bron 15,000 o flynyddoedd yn hŷn na phaentiadau Lascaux. Yn sicr ddigon, nid artistiaid cyntefig a'u lluniodd ac mae ffresni a bywiogrwydd syfrdanol y delweddau a luniwyd tua 30,000 o flynyddoedd yn ôl wedi chwyldroi syniadau a damcaniaethau yr archaeolegwyr hynny a hawliai mai cyntefigrwydd yw pennaf nodwedd a nod amgen arlunwaith trigolion y cyntefig oesoedd.

Yn briodol ddigon, gan gofio am gyflwr treuliedig paentiadau Lascaux, ni chaniateir i'r cyhoedd ymweld ag Ogof Chauvet ond mae'r arddangosfa sy'n seiliedig arni, ynghyd â'r ffilm o holl furluniau'r ogof, sydd i'w gweld mewn canolfan yn nhref gyfagos Vallon Pont D'Arc, yn ddigon o ryfeddod. Yno, adeg gwyliau haf 2011, y syllai Siân a minnau mewn syfrdandod, gan ddotio a rhyfeddu at wychder a hynodrwydd 'camp a chelfyddyd y cenhedloedd

cyfnar' sydd 'mor syfrdanol o gyfoes a hefyd mor hynafol o hen'.

1—Waldo, wrth gwrs, biau'r geiriau a ddaw o'i gerdd adnabyddus 'Cofio'.

2—Pennill agoriadol y gerdd 'Sir Benfro' gan Gwenallt.


Dyfed Elis-Gruffydd

Galwad

Daeth pâl y gwanwyn droeon
I'm galw at y pridd
A'm breichiau yn eu cryfder
A'r chwys yn gloywi 'ngrudd;
A thrwy y ffenest gwelais i
Y gadair yn fy ngalw i.

Mae deiliach crin yr hydref
Yn garped dros bob man,
A breichiau twym y gadair
Sy'n cadw'r awydd gwan:
A thrwy y ffenest gwelaf i
Y pridd yn galw arnaf i.

Ken Griffiths



Nodyn Golygyddol

Rwy'n siŵr eich bod wedi sylwi bod 'na enw wedi diflannu o glawr ffrynt *Y Feidr*. Am y tro cyntaf yn ei oes mae'r cylchgrawn hwn wedi ei amddifadu o'r un a roddodd fywyd a ffresni llenyddol o fewn ei gloriau am dros chwarter canrif. Cydweithiodd Dafydd fel golygydd diwyd o'r dyddiau cynnar hynny gyda'r diweddar Melfin Davies, a sefydlwyd cylchgrawn safonol ei gynnwys ganddynt er budd aelodau Capel Mair.

Mae arnom ddyled enfawr i Melfin a Dafydd am osod y safon o'r dyddiau cynnar hynny.

Cylchgrawn ydyw sydd â'i ddelwedd wedi aros yn yr unfan er bod ei gynnwys wedi amrywio, gyda'i erthyglau dwys a difyr yn brwydro am ofod ar hyd ei golofnau.

Rhaid cofnodi bod y blynyddoedd cynnar hynny, pan oedd cymunedau ein heglwysi a'n capeli ar frig y don, yn gyfnod pan welwyd awduron, llenorion a beirdd yr eglwys yn disgwyl eu tro i weld eu cynnyrch yn cael ei gyhoeddi mewn print.

Gwelwyd newidiadau aruthrol yn ystod y degawd diwethaf gyda'r dirywiad anataliadwy yn ein rhengoedd yma yng Nghapel Mair. Er hynny, daliwyd ati gan Dafydd i gymell rhai a pherswadio eraill i gyfrannu erthyglau diddorol i'w cyhoeddi.

Er ei fod wedi ei gofnodi fel cyd-olygydd â mi dros y pymtheng mlynedd ddiwethaf, gallaf yn awr ddatgelu yn ddiflewyn ar dafod mai DWJ oedd yn bennaf gyfrifol am safon gramadegol a llenyddol y cylchgrawn hwn. Bu ei weledigaeth a'i drefnusrwydd yn chwedlonol i sicrhau bod yr argraffwaith

yn cyrraedd y dosbarthwyr mewn da bryd bob chwe mis. Cefais wres fy nhraed droeon wrth ei weld yn camu i mewn i'r swyddfa argraffu yn mynnu perffeithrwydd mewn print.

Dysgais lawer, llafuriais weithiau a chefais wersi gramadegol di-ri gan y ddau gyn-olygydd. Gwnaethant waith y wasg yn hawdd: Melfin gyda'i ysgrifbin llym a Dafydd â'i fysellfwrdd cyfrifiadurol yn dawnsio ar flaen ei fyseidd.

Diolch, Dafydd, am yr arweiniad a ddaeth o'th ddoniau, a'r cyfeillgarwch.

WJ

Bwrdd Golygyddol newydd

Yn sgil yr erthygl uchod, da yw cyhoeddi bod bwrdd golygyddol newydd wedi ei grybwyll eisoes. Edrychwn ymlaen i droedio'r llwybr i lawr lôn *Y Feidr* gan fanteisio ar y cyfle i dorri cwys newydd a newid ei delwedd.

Y panel golygyddol sydd wedi ei awgrymu: Dyfed Elis-Gruffydd, Mair Thomas, Ken Griffiths, Meinir Jerman, Ceri Wyn Jones a Wynford Jones.

Cymydog


Rhoddaist dy bwys i'm cwysi – a rhoddaist

Drwy'r pridd dy ogedi,
Yna'n ddi-dâl fe ddei di
Yn gymydog y medi.

Ken y Graig

Yfory Gwell

Ar ôl pedair blynedd o godi arian, o'r diwedd, cyrhaeddodd *Y Llyfr Gwyn* Gaerfyrddin. Nôl ym mis Medi ar Ddiwrnod Heddwch y Byd, gwelodd Sgwâr Nott ddigwyddiad hanesyddol wrth i nifer fawr o drigolion y dref aros eu tro'n amyneddgar i gael torri eu henwau ar dudalennau glân y llyfr hardd hwn. Gwahoddyd pawb sydd ym mlwyddyn 11 neu'n hŷn i ystyried un frawddeg cyn mynd ati i arwyddo'r llyfr: 'Yr wyf i, drwy lofnodi *Llyfr Gwyn Caerfyrddin*, yn ymrwymo i weithio dros heddwch yn ein byd'. Erbyn hyn mae cannoedd wedi derbyn y gwahoddiad, a'r galw am y cyfle i gael bod yn rhan o fenter y *Llyfr Gwyn* yn cynyddu. Testament yw hwn o angerdd pobl Cymru i weld byd heb ryfel. Wrth gwrs, mae gweithio dros heddwch yn gofyn am fwy na thorri enw ar ddarn o bapur, ond mae'r weithred hon o leiaf yn arwydd cadarn o awydd, ac yn ddechrau ar y gwaith. Ac fel y gwyddom ni'r Cymry'n dda, 'deuparth gwaith yw ei ddechrau'.



Mae gan Pieter Breughel ddarlun o'r enw 'Cwmp Icarus'. Fe gofiwch chi am Icarus druan, y pŵr dab hedfanodd mor agos at yr haul nes i'w adenydd doddi a pheri iddo lanio, sblash, yn y môr mawr. Yr hyn sy'n drawiadol am lun Breughel yw ei bod hi bron yn amhosib gweld Icarus. Digon hawdd sylwi ar y ffarmwr yn aredig yn y blaendir, a'r haul melyn yn disgleirio yn y cefndir, a'r llong hardd a'i hwyliau aur ayb ayb. Ond rhaid craffu sbel cyn gweld coesau bach gwyn Icarus yn diflannu dan y tonnau. A dyna'n union beth oedd bwriad yr artist. Dweud a wna'r llun ei bod hi'n anodd ambell waith i ni weld trychineb er ei bod hi dan ein trwynau ni.



W H Auden yn ei gerdd *Musee des Beaux Arts* sy'n esbonio'r llun orau:
*In Breughel's Icarus, for instance:
how everything turns away
Quite leisurely from the disaster;
the ploughman may
Have heard the splash, the forsaken
cry,
But for him it was not an important
failure; the sun shone
As it had to on the white legs
disappearing into the green
Water; and the expensive delicate ship
that must have seen
Something amazing, a boy falling out
of the sky,
had somewhere to get to and sailed
calmly on.*

Gan mai ar gais golygydd Y Feidr y lluniwyd y golofn hon, efallai y byddai hi'n werth atgoffa ein hunain am yr hyn sy'n digwydd yn union dan ein trwynau ni: **Parc Aberporth**. Mae'r awyrennau di-beilot sy'n codi o'r fan honno, ac sydd wedi cael caniatâd y Cynulliad i ymarfer dros dir Cymru, yn rhan o arfogaeth fawr byd rhyfel. Ewch i wefan 'Drone Wars' i chi gael gweld yn iawn beth yw natur yr arswyd. Dyma'r dechnoleg a lwyddodd i ladd rhesaid gyfan o blant bach ym Mhacistan wrth iddyn nhw ddisgwyl am fws, a hynny, achos drwy lygaid yr awyren ddibeilot, fe'u camgymerwyd am res o filwyr.

A ydyn ni am i'n gwlad a'n hawyr iach ni gael eu cysylltu â'r fath arfogaeth? Ac nid dim ond o Aberporth mae Cymru'n chwarae ei rhan ym Militariaeth fawr Prydain. Mae cymaint o dir ein gwlad sydd wedi ei roi i'r lluoedd arfog - yn stordai, yn feysydd ymarfer, yn wersylloedd a.y.b. Does dim synnwyr yn y peth, achos fel dwedodd Waldo, mae arfogi teyrnas fel rhoi 'cyllyll yn

llaw'r baban'. A 'sneb yn ei iawn bwyll yn gwneud hynny.

Gwn fod nifer ohonoch chi, erbyn hyn, wedi torri eich enw yn y *Llyfr Gwyn* a chyfamodi i weithio dros heddwch. Ond cofiwch hefyd fod gwahoddiad cynnes iawn i chi ymuno â chell cylch Caerfyrddin o Gymdeithas y Cymod a dod i'n cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal yn festri Tabernacl, Caerfyrddin, unwaith y mis, fel arfer yr ail nos Lun. Mae'r rhaglen am eleni wedi bod yn gyffrous iawn ac ar nos Wener, 4 Mai, yn festri Tabernacl croesewir Emily John a Milan Rai, golygyddion *Peace News* a Stephen Evans a gyflwynodd raglen Radio 4 yn ddiweddar dan y teitl 'The Kill Factor'.

Yn y cyfamser, cymerwch funud i fynd ar y we i arwyddo'r ddeiseb yn erbyn y *Drones*. Ym mlwyddyn cofio 200 mlynedd ers geni Henry Richard, y brawd o Dregaron a'r Apostol Heddwch, mae Cymru'n edrych am gefnogaeth pobl Ceredigion unwaith eto i sicrhau dyfodol di-drais.

Rhag rhyfel, rhag creu gelyn, yn annwyl

Daw'r enwau'n ddiderfyn,

Yn ddi-oed fe ddaw wedyn

Yfory gwell drwy'r Llyfr Gwyn.

Tudur Dylan Jones

Am fanylion cysylltwch â

Merid Hopwood 07855 868077

Hoffai Bwrdd Golygyddol *Y Feidr* ddiolch i'r Prifardd Merid Hopwood am yr erthygl uchod.

Cymdeithas y Chwiorydd

TYMOR 2011-12

Llywydd Anrhydeddus: Mrs Mair Roberts

Cadeirydd: Mrs Mair Thomas (810511)

Is-Gadeirydd: Mrs Elfair James

Ysgrifennydd: Mrs Mer Evans (615525)

Is-Ysgrifennydd: Mrs Jean Jones (613743)

Trysoryddion:

Mrs Geinor Griffiths (612946)

Mrs Ann Vittle (613064)

Hydref 16eg—Oedfa Foreol

Agorwyd tymor y gaeaf drwy gynnal oedfa fore Sul dan lywyddiaeth Mrs Mair Thomas. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mrs Mair Roberts, Mrs Meinir Jerman a Mrs Iris Phillips. Darllenwyd yr emynau gan Mrs Ann Vittle, Mrs Elfair James, Mrs Jean Jones a Mrs Mer Evans. Yr organyddes oedd Mrs Beti Emanuel. Cafwyd anerchiad graenus iawn gan ein Llywydd, Mrs Mair Thomas, a gosododd y thema ar y modd y mae ein cymdeithas yn heneiddio a'r problemau a ddaw yn sgil hynny – testun na fedrai yr un ohonom ei osgoi.

Hydref 27ain—Swper y Cynhaeaf.

Daeth dros ddeugain ynghyd i fwynhau pryd o fwyd oedd yn wahanol i'r arfer. Cafwyd swper o ham a thatws a saws persli, yna tarten afal a hufen, a chwpaned o de neu goffi i orffen. Croesawyd pawb yn gynnes gan y Llywydd. Offrymwyd gair o weddi gan y gweinidog.

Wedi'r bwyd cafwyd adloniant gan aelodau o gôr Corlan o ardal Llanboidy ac un aelod yn adnabyddus iawn inni, sef Rhidian Evans; ef hefyd oedd y cyfeilydd. Cafwyd orig hyfryd yn eu cwmni gyda chanu graenus a dwy sgets fer. Gwnaed y diolchiadau gan y gweinidog.

Tachwedd 24ain—Arddangosfa yn dangos sut i drefnu blodau.

Ein gwesteion oedd Mrs Margaret Edwards a Mrs Meifis Howel Griffiths, y ddwy yn aelodau yng Nghapel Mair. Margaret oedd yn arddangos yn gyntaf gyda charnarsiynau gwyn a'r gwyrddni i gyd o'i gardd ei hun. Enillwyd llu o wobrau ganddi drwy gynrychioli Merched y Wawr yn Sioe Llanelwedd a llawer o sioeau lleol.

Arddangoswyd dau drefniant gan Meifis, un ar ffurf torch y Nadolig o wyrddni a chelyn, y cynnyrch eto o'i gardd ei hun, ac yna gosodwyd tair dolen neu dair cannyll goch ynddo. Cafwyd trefniant llai gyda lliwiau hyfryd o borffor llachar a leim. Mae Meifis hefyd wedi ennill llu o wobrau ar hyd y blynyddoedd. Hyfforddwyd y ddwy gan y ddiweddar Mrs Pam McGrath.

Nos Iau Rhagfyr 15fed— Dathlu'r Nadolig.

Daeth y ddwy gymdeithas, ynghyd â ffrindiau, at ei gilydd i ddathlu'r Nadolig. Roedd Mrs Lynne Davies wedi gofalu bod y byrddau wedi eu harddurno yn bwrpasol iawn. Pwyllgor y chwiorydd oedd yn gyfrifol am yr amrywiaeth o fwyd ar y byrddau.

Ar ôl bwyta a chymdeithasu, cafwyd adloniant ar y delyn gan Marian O'Toole, Llandyfriog. Cyd-ganwyd carolau a hefyd cafwyd eitemau unigol gan y delynores. Diolchodd Mrs Mair Thomas a Rhidian Evans, ysgrifennydd y Gymdeithas Ddiwylliadol, am noson hwylus iawn.

Nos Iau, 26ain Ionawr— Trin Gwydr

Croesawodd y Llywydd tair o ferched sydd yn byw yn Aberteifi, sef Cath Morgan, Anwen Griffiths a Lowri

Griffiths, gyda'r tair yn ymddiddori mewn trin gwydr. Hyfforddwyd hwy gan Stan Williams mewn dosbarthiadau nos yng Nghrymch. Arddangosodd y tair wahanol eitemau gyda gwydr lliw. Pleser oedd gweld y lliwiau llachar gydag effaith golau arnynt.

Bu'n noson ddiddorol a gwahanol iawn. Diolchwyd i'r merched gan Mrs Elfair James, Is-Lywydd Cymdeithas y Chwiorydd.

Nos Iau Chwefror 11eg— Dathlu Gŵyl Ddewi.

Cafodd aelodau Cymdeithas y Chwiorydd groeso twymgalon gan Mrs Iris Phillips, Llywydd y Gymdeithas Ddiwylliadol, i ddatlu Gŵyl Ddewi. Braf oedd gweld aelodau o gapeli eraill y dref yn bresennol. Paratowyd y cawl gan Mrs Lynne Davies gyda chwpaned o de a phice ar y maen i orffen y gwledda. Cyflwynwyd rhodd fechan i Lynne gan y ddwy gymdeithas am ei chymorth a'i charedigrwydd yn ystod y flwyddyn.

Cafwyd adloniant eleni eto gan y canlynol: Dyfed Elis-Gruffydd, Iris Phillips, Elfair James, Irfon a Mair Roberts, Mair Thomas, Rhidian Evans, Mer Evans, Teulu'r Graig (brab hefyd oedd gweld Iwan wedi dod adref i ymuno gyda'r teulu) a Gareth a Meinir Jerman. Cyfeiliwyd gan Mair Thomas. Jiw, mae talent yng Nghapel Mair a Bethania!

Nos Iau 22ain— Darlith gan Jon M. O. Jones.

I orffen ein tymor croesawodd Mrs Mair Thomas bawb yn gynnes iawn gan ddiolch i aelodau'r Gymdeithas Ddiwylliadol am eu presenoldeb. Offrymwyd gair o weddi dros y Parchg Irfon a Mair Roberts a'r teulu yn eu gofid.

Y gŵr gwadd oedd Mr Jon M. O. Jones, Llangrannog. Cafwyd hanes o'r chwedlau oedd wedi dylanwadu arno dros y blynyddoedd yn cynnwys hanes y ceffyl cyntaf a ddaeth i'r Cilie o'r enw Derby ac a fu fyw hyd yn 32 oed; storïau am rai o geffylau eraill y Cilie, sef Jolly, Gin a Brandy. Ychwanegodd mai'r ceffyl oedd y symbol cadarnaf o'r bywyd Cymreig yn ystod y cyfnod hwnnw.

Aeth Jon ati wedyn i arddangos pethau anarferol sydd yn ei gasgliad, sef cneuen goco oedd wedi ei hanfon gan ŵr a arferai weithio yn y Cilie; llun a gafodd oddi wrth ŵr o Siecoslofacia a arferai fyw ym Mhontgarreg o ddwy wraig mewn gwisg Byddin yr Iachawdwriaeth yn chwarae offerynnau; a'r *Welsh Not* erchyll a wisgai plant am ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn ysgolion.

Yn olaf, soniodd am un o gymeriadau mwyaf lliwgar y Cilie, sef Isfoel, a chafwyd sawl rigwm o'i waith, y cyfan oll gan Jon ar ei gof.

Cafwyd noson bleserus iawn i orffen y tymor. Gwnaed y diolchiadau gan Mrs Elfair James, Is-Lywydd Cymdeithas y Chwiorydd.

Mer Evans

Gwawr Wanwynol

Teg edrych a gweld ychain
Ar y maes 'rôl tymor main
Yn neidio a phrancio'n ffri
O dennyn eu cadwyni.
Gloywon pob un ohonynt
Yn ôl ar wanwynol hynt.

Clywch fref y famog hefyd
Ym môn y clawdd mewn man clyd;
Hithau yn gweld y gwaethaf
Heibio, a daw eto haf.
Gwelwch ran o gylch y rhod
A'r clo eto yn datod.

Emyr Oernant

Y Gymdeithas Ddiwylliadol

TYMOR 2011-12

Llywydd Anrhydeddus:

Y Parchg Irfon C. Roberts

Cadeirydd: Mrs Iris Phillips (613934)

Is-Gadeirydd: Dyfed Elis-Gruffydd

Ysgrifennydd: Rhidian Evans (612410)

Is-Ysgrifennydd: Mrs Geinor Griffiths

Trysorydd: Gareth Jerman (612361)

Cafwyd blwyddyn lewyrchus arall yn hanes Cymdeithas Ddiwylliadol Capel Mair a braf bellach yw gweld cyfeillion o eglwysi eraill y dref a'r ardal yn ymuno yn hwyl y Gymdeithas a fu eleni o dan gadeiryddiaeth fedrus Mrs Iris Phillips.

Bore Sul, 4 Medi—Oedfa Foreol yng ngofal y Gymdeithas gyda nifer yn cymryd rhan drwy ddarllen, gweddïo a chyflwyno'r emynau. Yn dilyn anerchiad gafaelgar gan Mrs Iris Phillips cafwyd datganiad o 'Yr Hen Arw Groes' gan Mrs Mer Evans. Mrs Beti Emanuel oedd wrth yr organ mewn oedfa a roddodd sylfaen dda i weithgareddau'r flwyddyn.

Hydref 20—Noson Agoriadol y Tymor yng nghwmni Cardi sydd bellach yn byw yng Nghaerdydd, sef Chris Jones, ar y testun 'O ŵr camera i ddyn tywydd'. Cawsom gipolwg ar fywyd diddorol y siaradwr gwadd, ei yrfa gydag S4C yn ogystal â'i daith cerdded elusennol o gwmpas Llwybr yr Inca a Machu Piccu ym Mheriw er budd Canolfan Ganr Ysbyty Felindre. Diolchwyd iddo am noson ddiddorol gan Delwyn Griffiths.

Tachwedd 17—Teithio o Fachynlleth wnaeth ein gŵr gwadd, sef John Price, i siarad am ei destun 'Dylanwadau a Choronau'. Aeth â ni yn ôl i fro ei febyd gan sôn am nifer o bobl fu'n

ddyfanwad ar ei fywyd cyn symud ymlaen â hanes ei waith fel cynllunydd coronau eisteddfodol yn cynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol; y diweddaraf ohonynt oedd Coron Eisteddfod Wrecsam 2011. Gareth Evans, un o gyd-garafanwyr y siaradwr gwadd, a dalodd y diolchiadau.

Rhagfyr 15 — Tro Cymdeithas y Chwiorydd oedd trefnu **Dathlu'r Nadolig** ac wedi cael lluniaeth blasus fe'n diddorwyd gan y delynores Marian O'Toole, Llandyfriog. Yn ogystal â chael ein diddanu, rhoddwyd cyfle i bawb ymuno yn y canu carolau i gyfeiliant y delyn. Talwyd diolch ar ran y Gymdeithas gan yr ysgrifennydd, Rhidian Evans.

Ionawr 19—Aelod o Adran Gŵn Heddlu Dyfed Powys sydd â'i wreiddiau'n ddwfn yn nhir Sir Benfro, y Rhingyll Keith Gibby, a ddaeth atom yng nghwmni ei gŵn arbenigol, Jac a Roxy. Synnwyd pawb gydag ymateb y cŵn i'w meist'r a'r bartneriaeth arbennig rhyngddynt. Bu hon yn noson hynod ddiddorol ac yn agoriad llygad i bawb. Mynegodd yr Is-Gadeirydd, Dyfed Elis-Gruffydd, ddiolch pawb a oedd yn bresennol.

Chwefror 16—I ddatlu Gŵyl Ddewi trefnwyd Cawl a Hwyl, y cawl dan ofal trefnus Mrs Lynne Davies a'r adloniant ar ffurf brethyn cartref gan swyddogion y Gymdeithas. Hyfryd oedd clywed llond y festri o chwerthin iach wrth i'r deuawdau, y sgets, yr adroddiadau ac wrth Siôn a Sian ddiddori pawb. Ymunodd pawb i ganu medli o ganeuon Cymreig traddodiadol i gychwyn a gorffen y noson. Diolch am noson hwyliog a dosad go dda o chwerthin!

Mawrth 15—Siom oedd deall fod y Prifardd Geraint Lloyd Owen, Bontnewydd, wedi'i daro'n wael yr wythnos flaenorol a hyderwn y daw cyfle eto i gael croesawu enillydd Coron Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2011 i'n plith. Ond, i'r adwy, yn hollol ddiffwdan, cymerwyd at y noson gan **Dyfed Elis-Gruffydd** a'n tywysodd heb fod nepell o'r festri draw i Abaty Llandudoch gan rannu o'i stôr o wybodaeth eang am y meini a welir yno a syndod oedd cael deall fod nifer o adeiladau lleol yn cynnwys Capel Mair wedi'u dylanwadu gan fynachod Tiron. Diolchwyd i'r siaradwr gwadd am noson addysgiadol ac i bawb am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn gan Rhidian Evans.

Hyfryd bob amser yw'r gymdeithas dros ddisied o de ar ddiwedd y cyfarfodydd a diolch i bawb am eu haelioni arferol. Diolch i Mrs Iris Phillips am ei harweiniad i'r gweithgareddau yn ystod y tymor. Yn awr edrychwn ymlaen at y wibdaith yn ystod y misoedd nesaf cyn ailgydio yn y cyfarfodydd yn yr hydref o dan gadeiryddiaeth Dyfed Elis-Gruffydd.

Rhidian Evans

Cyfaill

Gweled fy mod yn gwaelu – a wnest ti;

Croesaist hewl i'm helpu

Ac i arwain a'm gyrru

Drwy ffiniau y dyddiau du.

Ken y Graig

Pryd ar Glud

Mae'n anrhydedd i ni yma yng Nghapel Mair gefnogi cyllun Pryd ar Glud am bum wythnos y flwyddyn.

Mae gennym dîm parod iawn gyda'r aelodau canlynol: Gareth a Meir, Gareth a Mer, Wynford a Hildreth, Aneurin a Mair, Gwyn, Myra, gyda Louise wrth law.

Braf fyddai cael enwau ychwanegol ar y rhestr. Os ydych yn barod i roi awr i wasanaethu, a fyddech mor garedig â chysylltu â Myra ar 810133.

Llythyron

*Brithdir,
Maesglas
Aberteifi*

Hoffwn ddiolch i'r gweinidog a'r swyddogion am wella'r system sain. Pleser yw dod i'r oedfaon a chlywed pob gair o'r pulpud a'r sedd fawr.

Dyma gyfle hefyd i mi ddiolch i'm cyd-aelodau am yr ymweliadau, y caredigrwydd a'r cardiau dderbynias tra roeddwn yn yr ysbyty ac wedi imi ddychwelyd adref, a mawr ddiolch ichi sydd yn fy nghludo i'r oedfaon.

Nellie James

*Cregerith
Heol y Ferwig
Aberteifi*

Dymunaf estyn fy niolch mwyaf diffuant i aelodau Capel Mair am eu geiriau caredig a'u cefnogaeth ymarferol yn ystod y misoedd diwethaf yn dilyn y ddwy brofedigaeth a ddaeth i'm rhan.

Unwaith eto profais y brawdgarwch a'r cyfeillgarwch arbennig sydd gennym o fewn muriau'r eglwys hon.

Trefor



*Ymweliad yr Egin Glas
â Theatr Mwldan
i weld pantomeim
Martyn Geraint,
“Jac a’r Goeden Ffa”*

*Gwasanaeth Gŵyl
Ddewi gyda’r plant
yn dangos eu
gwybodaeth o Stori’r
Creu ar ôl sefyll
arholiad yr Ysgol Sul
a chyn mynd ymlaen i
ddod yn drydydd yng
Nghwis yr Ysgol Sul*



